

**Offrwm yr Adfent 2018  
2-24 Rhagfyr**

## Croeso Cariadus yn Open Doors, Hull

**Stori yw *Croeso Cariadus* am waith cynllun Open Doors, Hull, sef un o'r holl brosiectau gwych a gefnogir gan Gronfa Cenhadaeth ym Mhrydain yr Eglwys Fethodistaidd. Fe'i hysgrifennwyd i chi, neu un o'r gynulleidfa, ei darllen neu ei dweud ar goedd. Efallai yr hoffech ofyn i nifer o bobl ddarllen gwahanol rannau o'r stori.**

Heddiw rydym am fynd i mewn drwy ddrysau Open Doors yn Hull...

Ond i ddechrau, dychmygwch ein bod y tu allan, yn yr oerfel, yn sefyll ar riniog drws Eglwys Fethodistaidd Princes Avenue...

Dychmygwch eich bod wedi wynebu amgylchiadau mor ddychrynlyd nes ichi ffoi o'ch cynefin gan adael y bobl rydych yn eu caru. Teithio miloedd o filltiroedd i geisio lloches mewn gwlad estron. Yno maent yn siarad iaith ddieithr ac mae'n anodd deall mapiau, amserlenni bws a hyd yn oed pa fwyd yw prun yn yr archfarchnad. Mae'r diwylliant yn ddieithr i chi ac yn anodd ei ddeall. Rywsut mae'n rhaid ichi ddeall y drefn ar gyfer cael aros yma, er nad yw'n gwneud synnwyr i chi. Mae'n rhaid ichi grafu byw ar ychydig iawn.

Dyna chi'n dechrau breuddwydio mor braf fyddai cael y math o groeso rydym ni ar fin ei gael: croeso fel hyn sy'n cael ei roi o wythnos i wythnos i bobl fel Maryam a channoedd o rai eraill o bob cwr o'r byd.

Gwraig hanner cant oed yw Maryam, mam a nain o Syria y bu'n rhaid iddi adael y rhan fwyaf o'i theulu ar ôl, a'i gwaith fel bydwaig

y bu'n ei wneud am ddeng mlynedd ar hugain. Daeth i Hull gyda'i gŵr a'i mab ieuengaf, i chwilio am loches. Er bod gan Maryam wên i bawb bob amser, mae poen dwfn y tu ôl i'r wên honno.

"Ydw," meddai, "rwy'n gwenu ar y tu allan. Ond nid felly yn fy nghalon." Roedd ei phlant eraill yn rhy hen i gael dod i mewn i Brydain. Mae'n hiraethu am eu gweld nhw a'i hwyrion, yn enwedig y rhai nad yw eto wedi eu cyfarfod.

Dewch i mewn. Dewch i mewn gyda Maryam.

Y wên groesawus hon yw'r gyntaf o gannoedd sydd yn eich disgwyl yn Open Doors, Hull. Beth bynnag yw eich mamiaith, byddwch yn gwybod eich bod yn cyfrif yma.

Mae Jayne Mercer, sy'n gweithio i'r Groes Goch Brydeinig, yn dod i Open Doors er mwyn helpu ceiswyr lloches a ffoaduriaid i olrhain aelodau o'u teuluoedd. Meddai hi, "Mae gwasanaethau eraill yn helpu yn Hull. Ond does yr un ohonyn nhw'n cynnig awyrgylch fel sydd i'w gael yma. Mae'n wirioneddol arbennig."



Mae croeso ymarferol i'w gael yn Open Doors, hefyd, sy'n gwneud gwahaniaeth i fywydau pawb a ddaw yno.

Daw cariad ar ffurf paned dda a chinio blasus, llenwol, sy'n cael ei weini gan dîm o wirfoddolwyr cyfeillgar.

Daw cariad ar ffurf dillad i'ch cadw'n gynnes.

Daw cariad ar ffurf cyngor a chymorth arbenigol.

A chyfeillgarwch.

Mae cariad yn cael ei rannu drwy gerddoriaeth a gweithdai crefft neu wersi Saesneg.

Ac mae'n cael ei roi i chi i fynd adref mewn parseli bwyd ar gyfer eich teulu.

Mae cariad fel hyn yn heintus. Mae'n eich llenwi.

Fel llawer o'r buddiolwyr yma, mae Maryam hefyd yn wirfoddolwr. Er nad oes ganddi lawer o Saesneg, mae ei gwasanaeth siriol yn gymorth mawr i bobl eraill.

Mae'n galonogol gweld Maryam yn prysuro o gwmpas ei gwaith, fel mam i bawb yma.

Ond yr hyn sy'n syfrdanol yw deall, gan iddi fod yn rhan o ddosbarth crosio Open Doors, fod Maryam yn awr yn mynd adref ar ôl ei gwaith gwirfoddol yma a mynd ati fin nos i wneud blancedi i fabanod a bandiau gwallt i famau newydd yn Ysbyty Hull.

Adeg y Nadolig, gwnaeth addurn hardd i'w osod ar y goeden Nadolig yn Open Doors. Er bod arni hiraeth am ei theulu, a'i bod yn methu gweithio fel bydwraig yma, mae cariad mawr tuag at eraill yn lleddfu'r boen i Maryam ac yn rhoi ymdeimlad gwerthfawr o bwrpas.

Hanes tebyg sydd gan Ayman. Y peth gorau am

gael lloches yn y Deyrnas Gyfunol, meddai, yw yn syml iawn ei fod yn ddiogel. Deintydd oedd Ayman cyn iddo orfod ffoi o Syria. Ond nid oedd colli ei broffesiwn yn ddim yn ymyl gorfod gadael ei deulu estynedig ar ôl. Ac eto, mae Ayman yn falch o gael pwrpas yn ei fywyd drwy ei waith gwirfoddol.

Dyna brofiad llawer iawn o bobl yn Open Doors. Ffoadur o Bacistan yw Bashir Siraj, Cyd-drefnydd y Prosiect. Cafodd gymorth gan y prosiect pan ffodd ef a'i deulu i'r Deyrnas Gyfunol rhag y camddefnydd o ddeddfau a olygai ormesu Cristnogion yn eu gwlad.

“Rwy'n cael fy ysbrydoli gan nod Open Doors a'r gwaith y mae'n ei wneud. Rydym yn rhoi lletygarwch i bobl. Mae ein breichiau'n agored i'w croesawu ac rydym yn cydnabod pob unigolyn gan eu hannog i fagu mwy o hyder. Nid swydd yn unig yw hyn i mi; mae gen i awydd angerddol i helpu oherwydd rwyf innau wedi bod drwy'r broses. Rydych chi'n rhoi gwên ar wynebau pobl unwaith eto. Fedrwn ni ddim datrys pob problem ond rydym ni'n mynd yr ail filltir. Rydym yn gwrandao ac yna'n ymateb gan ddangos gofal mawr.”

Mae Open Doors yn helpu pobl sydd mewn angen difrifol iawn – ceiswyr lloches, ffoaduriaid a gweithwyr mudol. Trwy'r prif sesiwn galw heibio ar ddydd lau a'r gweithgareddau ar ddiwrnodau eraill, mae dros 300 o bobl o dros 60 cenedl yn cael eu helpu yma bob wythnos, gan 60 o wirfoddolwyr.

Rhyfeddol iawn, o ystyried bod hyn oll wedi dechrau yn 2000 gyda dyrnaid yn unig o aelodau eglwysig yn ymestyn allan at nifer o ddynion o Affganistan oedd yn newydd i'r ardal.

Yr Eglwys **Fethodistaidd**





Nid gwasanaeth proffesiynol mohono, medd Bashir, o'r math sy'n cael ei gynnig gan sefydliadau mwy, ond mae'n ymdrech wirioneddol i gyfleu neges Crist drwy'r hyn a wnânt – gydag adnoddau cyfyngedig a thîm cryf o wirfoddolwyr ymroddedig.

Drwy ymweld ag Open Doors, mae rhywun yn gweld mor wych yw'r gwaith ac mor galed y maent yn gweithio. Mae cymaint o gynhesrwydd fel ei bod yn hawdd peidio â sylweddoli mor drefnus yw'r cyfan.

Mae Joan Salby yn gwirfoddoli yma ers tair blynedd ar ddeg. Heddiw mae hi ar y ddesg groeso. Mae'n egluro pam y mae gwasanaethu yn Open Doors yn rhywbeth mor arbennig: "I ddechrau, doeddwn i ddim yn siŵr allwn i ei wneud; roeddwn i'n nerfus. Ond cyn gynted ag y cyrhaeddais, teimlwn yn gwbl gartrefol. Mae mor braf gweld pobl yn ymlacio yma. Ond hyd yn oed ar ôl yr holl flynyddoedd, rwy'n dal i gael braw o glywed rhai o'u hanesion a sut maen nhw wedi cael eu trin."

"Mae cymaint o wahanol ddiwylliannau'n cael eu cynrychioli yma, hefyd. Roedd yr Iesu'n cyrraedd allan at bawb ac mae'n teimlo ychydig bach fel petaem ni'n gwneud yr un peth. Ond mae'n fwy na dim ond ni, mae pobl eraill yn ein cefnogi hefyd. Gallaf feddwl am lawer o adegau pan nad oedd gennym ni ddim arian ar ôl i'w roi i rywun anghenus oedd yn sefyll o'n blaenau, a dyna ryw wraig yn dod i mewn i roi ei phumpunt wythnosol, jyst mewn pryd: ateb i weddi, yn wir."

Y rhai sy'n canmol Open Doors mwy na neb yw'r bobl sy'n cael cymorth. Yng ngeiriau Asghar, ceisiwr lloches a ffodd o Iran yn 2014 wedi iddo ddod yn Gristion a hynny'n peryglu ei fywyd: "Mae Open Doors yn lle mor obeithiol. Pan oeddwn yn

ddigartref, rhoesant arian a bwyd i mi. Roedden nhw mor gyfeillgar. Os gwelwch yn dda, helpwch nhw i barhau i wneud hyn."

Gallem ni sôn am lawer iawn o bobl sy'n ddiolchgar i Open Doors, ond gan mai 'bendith' yw ystyr enw Rokahaya o Senegal, fe orffennwn gyda'i geiriau hi sy'n mynegi diolch a her broffwydol:

"Bod mewn gwlad lle nad oes neb rydych yn ei adnabod...a dod o hyd i bobl mor gynnes, mor barod i'ch croesawu...petai pawb yn gwneud hyn ym mhobman, fyddai neb yn anghenus.

"Diolch o galon am dderbyn dieithriaid a gwneud iddyn nhw deimlo'n wych. Rydych wedi cyffwrdd â'm calon. Dwn i ddim sut y byddwn i'n dal ati oni bai amdanoch chi."

**Diolch am helpu Open Doors, Hull, i gynyddu fwyfwy mewn cariad a rhoi croeso cynnes i bobl anghenus.**

**Diolch hefyd am gefnogi Cronfa'r Genhadaeth ym Mhrydain a'r prosiectau ardderchog eraill y mae'n eu helpu.**

**Gadewch inni ddal i weddio a rhoi tuag at waith mor hanfodol - eich gwaith chithau ydyw.**

**Rydych wedi helpu i wneud i'r holl ddieithriaid hyn deimlo fel cyfeillion. Gyda'n gilydd, gadewch inni weddio a rhoi, fel y bydd ein cariad yn cynyddu fwyfwy!**

Mae'r Eglwys Fethodistaidd wedi derbyn caniatâd i ddefnyddio'r storiâu hyn. Am wybodaeth bellach cysylltwch â fundraising@methodistchurch.org.uk

  
**Yr Eglwys Fethodistaidd**

© Hawlfraint: Ymddiriedolwyr at Ddibenion yr Eglwys Fethodistaidd, 2018 Elusen gofrestrdig rhif 1132208

